Cyfrifon Banc Prosiectau - Nodyn Cyngor Caffael (PAN)

Date: Rhagfyr 2017

Fersiwn : 1

Cyfrifon Banc Prosiectau

1. Cyflwyniad

PWYNTIAU I'W NODI – ***gofalwch eich bod yn darllen yr adran hon yn gyntaf***

- ***<u>Nid</u> cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth yn y ddogfen hon ac nid oes bwriad iddi fod yn gwbl gynhwysfawr – dylai'r partïon contractio geisio'u cyngor annibynnol eu hunain, fel y bo'n briodol. Sylwch hefyd fod y gyfraith yn newid yn gyson ac y dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae ar 1 Ionawr 2018***
- ***Mae'r Nodyn Cyngor Caffael (NCC) hwn yn ychwanegu at y wybodaeth sydd ar gael yn y Canllaw Cynllunio Caffael ac mae'n cyd-fynd â'r wybodaeth honno a'r ddogfen ganllawiau ategol – "Canllawiau ar ddefnyddio Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru". Gan hynny, mae'r nodyn yn rhagdybio rhywfaint o wybodaeth am gaffael cyhoeddus. Mae'r ddogfen ganllawiau hon ar gael o Becyn Cymorth y Canllaw Cynllunio Caffael – http://prp.gov.wales/toolkit/.***
- ***Er bod y nodyn cyngor hwn wedi'i ysgrifennu'n benodol i drafod y defnydd o Gyfrifon Banc Prosiectau mewn prosiectau adeiladu/seilwaith, gallai'r egwyddorion fod yr un mor berthnasol i ddiwydiannau/sectorau***

Y materion dan sylw

Cyhoeddwyd y Nodyn Cyngor Caffael hwn gan Lywodraeth Cymru i annog defnydd o Gyfrifon Banc Prosiectau fel ffordd o fynd i'r afael ag arferion talu gwael mewn cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus drwy hwyluso talu teg a phrydlon. Mae'n egluro Polisi Llywodraeth Cymru ar Gyfrifon Banc Prosiectau i adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gorfod defnyddio cyfrifon o'r fath oni bai bod rhesymau da tu hwnt dros beidio â gwneud hynny a hyrwyddo'r defnydd o'r cyfrifon fel arfer gorau i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

2. Trosolwg:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio trefniadau caffael i ysgogi buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac i hybu swyddi a thwf. Dylai caffael cyhoeddus helpu i hyrwyddo Cymru fel lle da i gynnal busnes a darparu mecanweithiau sy'n galluogi cyflenwyr o bob maint i ffynnu.

Mae Cyfrifon Banc Prosiectau'n cefnogi'r ethos hwn. Maent yn cynrychioli arfer gorau o ran sicrhau talu teg a phrydlon yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n bwysig sicrhau llif arian drwy gadwyni cyflenwi i leihau'r risg o fethiant cadwyn gyflenwi i fusnesau Cymru ac i sicrhau bod arian yn cylchredeg yn gynt drwy'r economi a chymunedau lleol. Er bod Cyfrifon Banc Prosiectau wedi'u datblygu mewn ymateb i arferion talu gwael sy'n parhau yng nghadwyni cyflenwi'r diwydiant adeiladu, gellir eu defnyddio mewn unrhyw gontract sy'n dibynnu ar isgontractwyr.

Mae Polisi Llywodraeth Cymru ar Gyfrifon Banc Prosiectau'n seiliedig ar brofiad gweithredu cyfrifon o'r fath gan Adrannau Llywodraeth y DU (Highways England), Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban ynghyd â chyfres o brosiectau peilot yng Nghymru rhwng 2015 a 2017.

Cefndir

Mae busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn cyflawni rôl allweddol yn y gwaith o gyflawni prosiectau sector cyhoeddus drwy drefniadau is-gontractio. Mae cael gafael ar gyllid a llif arian yn hanfodol i unrhyw fusnes yn enwedig busnesau bach ag adnoddau cyfyngedig. Mae'n hanfodol felly bod cleientiaid y sector cyhoeddus yn sicrhau taliadau teg a phrydlon, nid i'n contractwyr haen 1 yn unig ond ym mhob rhan o'u cadwyni cyflenwi wrth gyflawni contractau cyhoeddus. Yn wir, mae hwn yn ofyniad statudol yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 sy'n dweud bod rhaid i awdurdodau contractio cyhoeddus sicrhau eu bod yn cynnwys amodau contract sy'n gofyn am daliad gan eu contractwyr haen 1 o fewn 30 diwrnod i gyflwyno anfoneb ddiamheuol a bod y telerau hyn yn cael eu hadlewyrchu i lawr y gadwyn gyflenwi.

Mae Cyfrifon Banc Prosiectau'n darparu dull o gyflawni gofyniad statudol y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus gan hwyluso talu teg a phrydlon gyda'r fantais ychwanegol o symleiddio'r broses i gleientiaid, contractwyr ac is-gontractwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod defnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau mewn contractau sector cyhoeddus yn cynrychioli newid mewn arferion talu traddodiadol. Fodd bynnag, mae manteision y cyfrifon hyn i'r sefydliad contractio a'r gadwyn gyflenwi yn fwy nag effaith y newid hwn mewn arferion talu. Mapiodd ymchwil gan weithgor Talu Teg y DU drefniadau talu cyfredol traddodiadol nodweddiadol yn erbyn proses arfer gorau Talu Teg; dangosodd yr ymchwil y gellid sicrhau arbedion o tua 1% gydag arferion Talu Teg a Chyfrifon Banc Prosiectau. Gallai'r arbedion hyn gynyddu gydag amser pe bai'r gadwyn gyflenwi'n gallu lleihau gorbenion sy'n

gysylltiedig â chasglu dyledion a gweinyddu. Mae'n anodd mesur manteision canlyniadol cynnydd mewn cynhyrchiant a llai o anghydfodau adeiladu, a methiannau yn y gadwyn gyflenwi ond fe allant fod yn sylweddol.

Dylai pob prosiect cyhoeddus ddefnyddio'r dull lle bo'n briodol.

Mae prif fanteision Cyfrifon Banc Prosiectau'n cynnwys:

- Lliniaru'r risg o oedi wrth dalu a'r gost sy'n gysylltiedig â hynny'n effeithiol
- Lleihau'r risg o fethiant yn y gadwyn gyflenwi drwy wella llif arian
- Tryloywder yng ngwariant a llif talu'r gadwyn gyflenwi
- Ei gwneud yn haws mesur amserlenni talu ledled y gadwyn gyflenwi
- Sicrhau taliadau cynt i'r gadwyn gyflenwi
- Costau a manteision i'r gadwyn gyflenwi yn sgil taliadau cynnar a sicr
- Sicrwydd a hyder i bob parti bod arian sy'n cael ei dalu i'r cyfrif yn ddiogel

Lledaenu a Chwmpas

Mae'r NCC hwn yn uniongyrchol berthnasol i:

2.1 Holl gontractau adeiladu a seilwaith Llywodraeth Cymru ac unrhyw gontractau priodol eraill sy'n werth £2 filiwn neu fwy sy'n cael eu cyflawni'n uniongyrchol ar ran Adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gofyn am ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau oni bai bod rhesymau da tu hwnt dros beidio â gwneud hynny. Pan fo rheswm o'r fath yn cael ei nodi mae'n rhaid llunio adroddiad penderfyniad yn egluro'r rhesymau hynny a'i gyflwyno er mwyn ei archwilio.

2.2 Prosiectau adeiladu a seilwaith ac unrhyw gontractau priodol eraill sy'n werth £2 filiwn neu fwy sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu eu hariannu â grant Llywodraeth Cymru sy'n gofyn am ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau oni bai bod rhesymau da tu hwnt dros beidio â gwneud hynny.

2.3 Yn achos 2.1. a 2.2. uchod, pan fo rhesymau da tu hwnt mae'n rhaid llunio adroddiad penderfyniad yn egluro'r rhesymau hynny a'i gyflwyno er mwyn ei archwilio. Mae eithriadau i'r trothwy £2 filiwn wedi'u nodi yn adran 4.5.3 isod.

Bwriedir hefyd i'r NCC hwn:

2.4 Ddarparu canllawiau arfer gorau i gefnogi gweithrediad Cyfrifon Banc Prosiectau mewn contractau adeiladu a seilwaith ac unrhyw gontractau priodol eraill gan gyrff sector cyhoeddus Cymru. Argymhellir y dylid dosbarthu'r NCC hwn (er gwybodaeth) yn eich sefydliad, a'i ddwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu, cynllunio caffael a rheoli contractau'n arbennig neu'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni prosiectau adeiladu a seilwaith.

Mae dogfen ganllawiau ychwanegol, *Canllawiau ar Ddefnyddio Polisi NCC Llywodraeth Cymru* i gefnogi gweithrediad y Polisi hwn ar gael drwy wefan Canllaw Cynllunio Caffael Llywodraeth Cymru ***http://prp.wales.gov.uk*** yn y Pecyn Cymorth Polisi ac Adnoddau a geir yn ***http://prp.gov.wales/toolkit/***

Mae'r *Canllawiau ar Ddefnyddio Polisi NCC Llywodraeth Cymru* yn amlinellu'r gofynion sylfaenol ar gyfer Cyfrif Banc Prosiectau yn Atodiad 1, sut i weithredu'r cyfrifon, rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau dan sylw a dogfennau enghreifftiol.

3. Beth yw Cyfrifon Banc Prosiectau?

Cyfrifon banc wedi'u clustnodi gyda statws ymddiriedolaeth sy'n gweithredu'n unig fel lle i ddal arian ar gyfer trosglwyddo arian o'r cleient i'r prif gontractwr a'r gadwyn gyflenwi. Yn achos prosiectau sy'n cael eu cyflawni drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Cymru, y 'cleient' yw Cwmni'r Prosiect/Cyfrwng at Ddibenion Arbennig a sefydlwyd i reoli'r prosiect.

Tra bod taliadau a wneir yn uniongyrchol i'r prif gontractwr yn cael eu talu ar y gadwyn gyflenwi'n ddiweddarach fel arfer, mae Cyfrifon Banc Prosiectau'n caniatáu taliadau ar y pryd o fewn 3-5 diwrnod o roi arian yn y cyfrif ar ôl ardystio'r hawliad i'r prif gontractwr a phartneriaid y gadwyn gyflenwi. Mae defnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau yn hwyluso taliadau prydlon drwy'r gadwyn gyflenwi ac yn lliniaru unrhyw broblemau posibl gyda thelerau talu hirfaith.

Gall Cyfrifon Banc Prosiectau helpu i ddiogelu cyrff sector cyhoeddus rhag camau gweithredu cyfreithiol o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn hwyr (Llog) 1998, sy'n galluogi busnesau o unrhyw faint i hawlio llog statudol ar daliadau hwyr mewn perthynas ag anfonebau diamheuol hwyr o fewn 30 diwrnod.

3.1 Cyfrif Unigol neu Unig Gyfrif a Chyfrif ar y Cyd

Gan fod gan Gyfrifon Banc Prosiectau statws ymddiriedolaeth dim ond i fuddiolwyr enwebedig y cyfrif (y prif gontractwr ac is-gontractwyr eraill yng nghadwyn gyflenwi'r prosiect) y gellir talu arian. Mae'r dull hwn yn golygu bod Cyfrifon Banc Prosiectau'n diogelu is-gontractwyr yn y gadwyn gyflenwi rhag methdaliad y prif gontractwr. Mae yna ddau ddull yn cael ei hyrwyddo i weithredu Cyfrifon Banc Prosiectau:

- Cyfrif unigol neu unig gyfrif – unig gyfrif contractwr. Mae'r prif gontractwr yn agor y cyfrif yn ei enw ef yn unig;
- Cyfrif ar y cyd – cyfrif ar y cyd gan y cleient a'r contractwr.

Waeth pa ddull a fabwysiedir mae gan y ddau gyfrif ddau brif ofyniad:

- Bod y cleient a'r contractwr yn ymddiriedolwyr i'r cyfrif hwnnw;
- Bod y cleient a'r contractwr yn awdurdodi taliadau ar y cyd ym mhob cylch talu.

Mae'r ddau ddull yn cynnig yr un lefel o graffu a thaliadau arian i'r gadwyn gyflenwi, ond gyda dull ychydig yn wahanol o ymdrin â thryloywder.

Manteision dewis cyfrif ar y cyd:

- Mae'n rhoi mwy o reolaeth i'r cleient gan ei fod yn barti mewn cyfrif ac yn gallu cymryd camau i agor y cyfrif;
- Mae'n haws cysoni systemau ariannol os yw'r cleient yn defnyddio ei ddarparwr bancio ei hun;
- Gall cleientiaid sicrhau bod gan bob prosiect sy'n defnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau ddull cyson sy'n defnyddio'r un banc.

Yr anfanteision yw:

- Efallai y bydd gan rai sefydliadau sector cyhoeddus reoliadau sy'n eu gwahardd rhag cael cyfrif banc ar y cyd â chyflenwr, ac felly ni allant agor cyfrif ar y cyd.

- Os yw'r banc a ddewisir ar gyfer cyfrif ar y cyd yn newydd i'r contractwr, byddai'n rhaid iddo gael gwiriadau diwydrwydd dyladwy trylwyr wrth agor y cyfrif a allai ychwanegu at yr amser mae'n ei gymryd i agor cyfrif.

Manteision dewis unig gyfrif:

- Gallai'r contractwr fod yn fwy parod i gyflwyno Cyfrifon Banc Prosiectau os yw'n gallu defnyddio ei fanc o'i ddewis ei hun (gweler Atodiad 1 o'r ddogfen ganllaw 'Canllawiau ar ddefnyddio Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru' ar gyfer gofynion sylfaenol);
- Mae'n dal i roi'r un lefel o ddiogelwch gan fod y ddau barti'n ymddiriedolwyr a bod y ddau barti'n gorfod awdurdodi'r taliadau drwy'r system.

Yr anfanteision yw:

- Mae gan y cleient lai o reolaeth wrth agor y cyfrif
- Os oes gennych chi sawl prosiect gyda sawl contractwr ac unig gyfrifon efallai y byddai rhaid i chi ymdrin â nifer o ddarparwyr bancio gwahanol
- Bydd angen i chi sicrhau bod meddalwedd y Banc a ddewisir yn gydnaws â systemau TG er mwyn gallu cael mynediad i systemau bancio ar y we.

Pa bynnag ddull a ddefnyddir, mae'n rhaid i'r corff sector cyhoeddus fonitro'r cyfrif yn ofalus a sicrhau bod y cyfrif yn cydymffurfio â'r gofynion sylfaenol (gweler Atodiad 1 o'r ddogfen ganllaw 'Canllawiau ar ddefnyddio Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru' ar gyfer gofynion sylfaenol).

4. Polisi Llywodraeth Cymru

O 1 Ionawr 2018 ymlaen,

4.1 Mae gofyn i holl gontractau adeiladu a seilwaith Llywodraeth Cymru sy'n werth £2 filiwn neu fwy ac sy'n cael eu cyflawni ar ran Adrannau Llywodraeth Cymru ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau oni bai bod rhesymau da tu hwnt dros beidio â gwneud hynny.

4.2 Mae gofyn i brosiectau adeiladu a seilwaith ac unrhyw gontractau priodol eraill sy'n werth £2 filiwn neu fwy sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu eu hariannu â grant Llywodraeth Cymru ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau oni bai bod rhesymau da tu hwnt dros beidio â gwneud hynny.

Ac

4.3 Cynghorir cyrff sector cyhoeddus Cymru i ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau wrth gyflawni prosiectau adeiladu a seilwaith a hunanariennir lle bo'n briodol

4.4 Dylai cytundebau fframwaith presennol gynnwys Cyfrifon Banc Prosiectau cyn gynted â bo hynny'n ymarferol.

4.5 Bydd y prosiectau sy'n addas yn dibynnu i raddau helaeth ar hyd y prosiect a'r pecynnau is-gontractio dan sylw. Fel canllaw cyffredinol, gellir defnyddio'r meini prawf canlynol i nodi prosiectau addas:

4.5.1 Contractau adeiladu/seilwaith neu gontractau cyhoeddus eraill sydd â chadwyn gyflenwi is-gontractio sylweddol

a) sy'n para 6 mis neu fwy ac

b) yn werth £2 filiwn neu fwy

4.5.2 Ym mhob achos pan ddefnyddir Cyfrifon Banc Prosiectau bydd cyflenwyr haen 2 neu is yn cael eu defnyddio fel a ganlyn:

a) Mae'n rhaid i gyflenwyr haen 2 neu is sy'n cyfrif am o leiaf 1% o werth y prif gontract ymuno â'r Cyfrifon Banc Prosiectau; neu

b) Dylai cyflenwyr haen 2 neu is sy'n llai na 1% o werth y prif gontract gael gwneud cais i ymuno â'r Cyfrifon Banc Prosiectau. Bydd rhaid cael cytundeb yr ymddiriedolwyr a'r prif gontractwr i dderbyn cyflenwyr sy'n gwneud cais o'r fath.

4.5.3 Eithriadau i'r trothwy £2 filiwn

a) Prosiectau llai na 6 mis

b) Os yw'r ymgeisydd llwyddiannus (h.y. haen 1) yn gwneud ymrwymiad pendant i hunangyflawni a/neu ddefnyddio is-gontractwyr (h.y. haen 2)

sydd o fewn y rhiant-gwmni y mae haen 1 yn perthyn iddo hefyd, fel nad yw'r un, y llall neu gyfuniad o'r ddau yn fwy na 75% o werth y prif contract, yna gall y corff comisiynu ddewis bwrw ymlaen gyda'r Cyfrifon Banc Prosiectau ai peidio.

4.6 Wrth weithredu Cyfrifon Banc Prosiectau dylid ystyried:

- Gofynion llywodraethu er mwyn sefydlu Cyfrifon Banc Prosiectau
- Cael hyfforddiant a chymorth arbenigol ar gyfer Tîm Cleientiaid
- Nodi newidiadau sydd eu hangen ar gyfer dogfennau tendro
- Y geiriad i'w gynnwys yn hysbysiadau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)
- Paratoi pecynnau briffio ar gyfer dogfennau contract
- Briff ar gyfer y rhai sy'n tendro fel rhan o'r broses gaffael
- Briff y gadwyn gyflenwi ehangach ar Gyfrifon Banc Prosiectau a'r manteision

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar yr ystyriaethau hyn yn y ddogfen "***Canllawiau ar ddefnyddio Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru***" sydd ar wefan y Canllaw Cynllunio Caffael.

5. Canllawiau ac adnoddau

Dyma rai o'r dogfennau canllaw polisi ac adnoddau ategol sydd ar gael i chi i'w defnyddio yn eich gweithgarwch caffael:

- Canllaw Cynllunio Caffael (PRP):- http://prp.wales.gov.uk
- Pecyn Cymorth y Canllaw Cynllunio Caffael:- http://prp.wales.gov.uk/toolkit
- Canllawiau ar ddefnyddio Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru, Gwerth Cymru (2017)
- Asesiad Risg Cynaliadwy (SRA), Gwerth Cymru (2016)
- Datganiad Polisi Caffael Cymru, Gwerth Cymru (2015)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Gwerth Cymru: vwpolicy@gov.wales

6. Cydnabyddiaeth

Mae Gwerth Cymru'n falch o gydnabod ei fod wedi defnyddio'r cyhoeddiadau a'r sefydliadau canlynol i ategu ei waith ymchwil ei hun i lunio'r nodyn hwn:

- "A Guide to best Fair Payment practices" Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) 2007
- Project Bank Accounts - Briefing document (Swyddfa'r Cabinet 10 Chwefror 2012)
- A Guide to the implementation of Project Bank Accounts (PBAs) in construction for government clients. (Swyddfa'r Cabinet 3 Gorffennaf 2012)